**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1286
Ein cyf/Our ref EM/03813/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr arall ynghylch deiseb rhif P-06-1286 ynglŷn â sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod pandemig COVID-19.

Gwnaethoch chi ofyn pa gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas ag amseroedd aros canser dros y misoedd diwethaf, a ph'un a ydynt wedi dychwelyd at yr amseroedd aros cyn y pandemig.

Mae'n galonogol iawn gweld nifer yr atgyfeiriadau canser bellach yn uwch yn gyson na'r lefel cyn y pandemig. Mae hyn yn golygu bod pobl sydd â symptomau lle’r amheuir canser yn hyderus i fynd i weld eu meddyg teulu. Roedden ni'n poeni nad oedd pobl yn mynd i weld eu meddyg teulu am eu symptomau. Ym mis Awst (y data diweddaraf sydd ar gael), cafodd GIG Cymru 16,389 o atgyfeiriadau ar gyfer achosion lle'r amheuir canser, y nifer uchaf a gafwyd erioed.

Mae'r cynnydd cyson hwn yn y galw, yn ogystal â'r problemau o ran capasiti a geir ar y cam cyntaf i gleifion allanol, ac ar y cam rhoi diagnosis yn y llwybr, yn effeithio ar ein gallu i drin cleifion o fewn 62 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n dechrau triniaeth o fewn mis yn parhau i gynyddu ac ym mis Awst, gwnaeth bron 1,700 o gleifion ddechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ar gyfer canser, sef y nifer uchaf ers mis Mawrth. Yn ffodus, ym mis Awst cafodd 13,500 o gleifion wybod nad oedd canser arnynt, sef y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, a chawsant eu symud oddi ar y llwybr lle'r amheuir canser o ganlyniad i hynny. Mae'n bwysig cofio bod y cleifion y canfyddir nad oes canser arnynt hefyd yn cael eu gweld ac yn cael diagnosis o fewn y targedau a osodwyd. Mae'r data diweddaraf ar gyfer mis Awst yn dangos bod nifer y bobl sy'n dechrau triniaeth neu sy'n cael eu symud oddi ar y llwybr triniaeth yn uwch na’r hyn a gofnodwyd erioed, ac yn parhau'r duedd ar i fyny a gafwyd yn ystod y misoedd diwethaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynheliais uwchgynhadledd ganser ym mis Hydref, gan ei gwneud yn glir i'r byrddau iechyd ei bod yn bwysig bod camau pellach yn cael eu cymryd i wella perfformiad ym maes gofal canser, ac i sicrhau bod cleifion sy'n sâl yn glinigol yn cael blaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd perfformiad yn gwella tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services